Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Gwneud Cymru yn Fwy Diogel Gyda'n Gilydd



## Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru: Cynllun Strategol 2025 - 2030

# Tudalen Gynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru - Pwy ydym ni | 4 |
| Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd | 5 |
| Beth rydym yn ei wneud | 6 |
| Ein Llwyddiannau | 8 |
| Ein Nod a'n Blaenoriaethau | 10 |
| Rhaglen Waith Flynyddol | 12 |
| Perfformiad Cyflawni a Metrigau | 13 |
| Llywodraethu a Cyllid | 14 |
| Adnoddau | 15 |



cymunedaumwydiogel.cymru

cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network



# Cyflwyniad

"Croeso i 'Gwneud Cymru yn Fwy Diogel Gyda'n Gilydd', cynllun strategol pum mlynedd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Ers 2021 mae'r Rhwydwaith wedi datblygu sylfaen gref a nod y cynllun hwn yw adeiladu ar ein llwyddiannau drwy barhau i gefnogi ymarferwyr a hybu cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol, partneriaid a budd-ddeiliaid.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth, cenhadaeth a'n gwerthoedd yn ogystal â gosod y blaenoriaethau a'r gweithgarwch y byddwn yn canolbwyntio arnynt, wrth i ni barhau i weithio tuag at ddyfodol lle mae cymunedau ar draws Cymru yn fwy diogel, yn gryfach ac yn fwy cysylltiedig.


Er mwyn dangos tystiolaeth fod yr uchelgeisiau o fewn y cynllun hwn yn cael eu cyflawni, fe fyddwn yn llunio datganiad blynyddol a fydd yn nodi ein llwyddiannau ac yn ein galluogi ni i asesu p'un ai a oes yna angen i addasu'r uchelgeisiau hynny. Byddwn hefyd yn ymgymryd ag adolygiad tymor canolig o'r cynllun hwn i sicrhau ein bod yn dal i fodloni anghenion ymarferwyr, partneriaid a budd-ddeiliaid.

**Mark Brace, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**

# Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru - Pwy ydym ni

## Cefndir

Fe sefydlwyd y Rhwydwaith yn Ionawr 2021 fel ymateb ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Heddlu yng Nghymru, yn dilyn cyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru o waith partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru.




TRoedd Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel (2017) yn gosod gweledigaeth o ran diogelwch cymunedol yng Nghymru wedi ei yrru gan ymagwedd ar y cyd ac un integredig ac aml-asiantaethol fel bod pob cymuned yn gryf, diogel ac yn hyderus. Seiliwyd y weledigaeth hon ar gyfrifoldeb a rennir gan y llywodraeth, y cyhoedd ac asiantaethau trydydd sector i gydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol, gwrthgymdeithasol ac anghyfreithlon.

Rhagwelwyd y byddai:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi ei arwain gan wybodaeth
- Wedi ei gefnogi gan wybodaeth a sgiliau priodol
- Wedi ei ariannu'n gynaliadwy ac yn addas i'r ardal leol
- Yn atal ac yn ymyrryd cyn gynted â phosibl
- Yn canolbwyntio ar welliannau a buddion yn y tymor hir

Cafodd sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel ei argymell fel rhan allweddol o'r ymagwedd hon ac mae wedi esblygu yn rhan bwysig o'r dirwedd partneriaeth yng Nghymru.

# Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd

Ein gweledigaeth yw creu cymunedau mwy diogel, cryfach a mwy gwydn ar hyd a lled Cymru.

**Ein cenhadaeth yw i gefnogi ymarferwyr, dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a hysbysu ymarferwyr i wella darpariaeth leol i sicrhau cymunedau mwy diogel.**

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy ein gwerthoedd. I fod yn:

- Llais cenedlaethol yr ymddiriedir ynddo ar ddiogelwch cymunedol
- Yn gynhwysol a chydweithredol
- Yn cael ei arwain gan dystiolaeth
- Yn agored, ymatebol a rhagweithiol
- Gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar

# Beth rydym yn ei wneud

TFe sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i feithrin cymunedau mwy diogel ar hyd a lled Cymru. Rydym yn cynnig cefnogaeth a chymorth, yn gweithio ar y cyd ac yn galluogi datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr diogelwch cymunedol.

Cysylltu

Cymorth

Hysbysu

Cefnogi

Rydym yn darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau cynhwysfawr i ymarferwyr diogelwch cymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill. Rydym yn meithrin partneriaethau, hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a hwyluso rhannu gwybodaeth i wella gweithgarwch diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru.



2024 Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru



2024 Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Rydym yn gweithredu fel llais ymarferwyr diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru, gan weithredu fel canolwr annibynnol pan fo angen i fynegi eu heriau, llwyddiannau a'u safbwyntiau i wneuthurwyr polisi yn Llywodraethau Cymru a'r DU.

**“cymuned ar gyfer pawb sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol”**

Rydym i gyd yn gwybod fod diogelwch cymunedol ar sawl ffurf ar draws Cymru, yn nhermau materion o flaenoriaeth ac ymagweddau lleol. Rydym hefyd yn gwybod fod y gallu i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r materion hyn yn gofyn am waith partneriaeth cryf. Mae rhannu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch cymunedolyn ogystal â dod â phobl ynghyd yn greiddiol i nod y Rhwydwaith – i greu cymuned o gefnogaeth ar gyfer pawb sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol.

# Ein Llwyddiannau

Ers 2021 rydym wedi datblygu ac wedi cyflawni'r llwyddiannau canlynol:

## Datblygu polisi

Rydym wedi sefydlu ein hunain fel cynghorydd allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a San Steffan, gan adlewyrchu safbwyntiau ymarferwyr diogelwch cymunedol. Yn ogystal â chynorthwyo gyda datblygu deddfwriaeth diogelwch cymunedol, canllawiau a fframweithiau polisi, rydym wedi cyfrannu at ddatblygu polisi mewn meysydd fel y Canllawiau Dyletswydd Trais Difrifol a datblygu proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru.

## Ymgynghoriadau

- Rydym wedi dod yn llais pwysig o ran ymateb i ymgynghoriadau ar ran ymarferwyr ar hyd a lled Cymru, gan ddarparu llais cydlynol sy'n cynghori ac yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym yn ymgynghori gydag aelodau drwy e-bost neu drwy weithdai gan gasglu ymatebion manwl ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol gan gynnwys digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, diogelwch ar-lein, cydraddoldeb hiliol a chydlyniant cymunedol.
- Ers sefydlu'r Rhwydwaith mae 81 o ymatebion ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cyflwyno a 31 o ymatebion uniongyrchol wedi eu rhannu rhwng tîm y Rhwydwaith a swyddogion y Llywodraeth.

## Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Blynyddol

Fe gynhaliwyd seremoni Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel cychwynnol yn 2023 ac mae'r seremoni bellach wedi dod yn ddigwyddiad allweddol yn y calendr diogelwch cymunedol. Mae'r gwobrau yn rhoi cyfle i adnabod, cydnabod, dathlu a hyrwyddo'r gwaith partneriaeth gwych sy'n cael ei gyflawni mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

## Wythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel

Mae'r wythnos Ymwybyddiaeth yn gyfle i ymgysylltu gyda phartneriaid ac ymarferwyr i roi sylw i themâu cyfredol a rhai sy'n datblygu. O seminarau i ddigwyddiadau hacathon, rydym yn cyflawni ar draws ystod eang o sefydliadau a sectorau, gan ddarparu cyfleoedd i hysbysu ac annog gweithio mewn partneriaeth.

## Rhaglen seminar

Mae ein rhaglen seminar flynyddol yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a hysbysu ymarferwyr. Mae pynciau yn berthnasol, amserol ac yn cynnwys ystod eang o themâu o danau gwyllt a siapio lleoedd lleol i iechyd meddwl ac atal hunanladdiadau.

## Cefnogi Rhwydweithiau Partner

Rydym yn parhau i gefnogi nifer o Rwydweithiau partner a chyfarfodydd allweddol fel Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymru Gyfan, Rhwydwaith Arloesi a Gwella Dadansoddi Data Cymru, Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru a Bwrdd Atal Cymru Heb Drais. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i ystod o ymarferwyr rannu materion cyffredin a gwybodaeth er mwyn datblygu ymagwedd gydlynol a chyson tuag at bryderon yn ymwneud â diogelwch cymunedol.

## Llyfrgell gynyddol o adnoddau

Mae ein gwefan yn cynnal llyfrgell gynhwysfawr o adnoddau sy'n rhoi mynediad i ymarferwyr i astudiaethau achos, hyfforddiant, podlediadau a seminarau wedi eu recordio ar draws ystod o themâu yn ymwneud â diogelwch cymunedol.

## Partneriaethau

Rydym yn chwarae rhan allweddol mewn hyrwyddo gwaith partneriaeth cadarnhaol ar draws Cymru ac yn parhau i wella cysylltiadau rhwng diogelwch cymunedol a sectorau allweddol eraill fel cyfiawnder troseddol, trais difrifol a throseddau ieuenctid i wella gwasanaethau a chanlyniadau.

# Ein Nod a'n Blaenoriaethau

Yn ychwanegol at ein hasiantaethau partner craidd yn yr heddlu, y gwasanaeth tân, llywodraethau lleol, Cymru a San Steffan, rydym hefyd yn gweithio gydag asiantaethau ym maes iechyd a'r trydydd sector i sicrhau fod yna ymagwedd gydlynol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â diogelwch cymunedol. Mae ein llwyddiannau yn dangos yr enw da cadarnhaol a chynhyrchiol rydym wedi ei greu ar gyfer cynyddu sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr a chodi proffil diogelwch cymunedol.

Rydym eisiau adeiladu ar y llwyddiannau hyn dros y 5 mlynedd nesaf. Byddwn yn:

BLAENORIAETH

## 1. Gwneud y cysylltiadau

- Parhau i gefnogi materion diogelwch cymunedol a chryfhau ein partneriaethau strategol gyda budd-ddeiliaid allweddol drwy weithio'n agos gyda thimau ar draws llywodraeth leol a'r heddlu yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ehangu cyrhaeddiad y Rhwydwaith a'i effaith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy gynyddu ymgysylltiad gydag ymarferwyr diogelwch cymunedol.

- Nodi rhwydweithiau presennol a phartneriaid a chydweithio gyda hwy i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer cydweithio ac alinio blaenoriaethau.
- Ymgysylltu a chyfrannu at weithredu gwaith newydd a gwaith sy'n datblygu mewn meysydd fel y Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol, Glasbrintiau Llywodraeth Cymru a newid hinsawdd.
- Canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i Gymru i sicrhau fod yna ymagwedd gydlynol tuag at ddatrys problemau a defnydd effeithiol o adnoddau i fynd i'r afael â materion lleol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, lleihau aildroseddu a thrais difrifol.
- Sicrhau fod yna gyfleoedd rhwydweithio a fforymau er mwyn i ymarferwyr rannu mewnwelediadau, profiadau ac ymyriadau llwyddiannus.
- Cryfhau ein perthynas gyda Llywodraethau Cymru a San Steffan i wella dylanwad a rhoi arweiniad ar gyfer datblygu mentrau newydd a deddfwriaeth.
- Parhau i gefnogi a hyrwyddo Rhwydweithiau partner fel Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru, Rhwydwaith Arloesi a Gwella Dadansoddi Data Cymru a grŵp Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i sicrhau ymagwedd ar y cyd tuag at ddiogelwch cymunedol ac annog mentrau ar y cyd ymysg gwahanol asiantaethau.

BLAENORIAETH

## 2. Cefnogi Ymarferwyr

- Darparu arweiniad wedi ei deilwra a chefnogaeth i ymarferwyr diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru, gan fynd i'r afael â heriau penodol a hyrwyddo'r arfer orau.

- Darparu mynediad i gefnogaeth ar-lein, hyfforddiant a chanllawiau sy'n cynyddu sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud ag ymarferwyr diogelwch cymunedol.

BLAENORIAETH

## 3. Cynyddu Hyfforddiant a Gallu

- Gweithredu rhaglen hyfforddiant diogelwch cymunedol a fydd yn cynnwys modiwl sylfaenol am ddim gyda chysylltiadau i ddysg ac adnoddau ehangach.

- Datblygu pecyn cymhwyster diogelwch cymunedol.
- Sefydlu rhaglenni ardystio a chyfleoedd datblygu proffesiynol i wella sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr.
- Creu partneriaeth gyda sefydliadau academaidd a darparwyr hyfforddiant i sicrhau mynediad i adnoddau hyfforddi cyfredol o ansawdd uchel.

## 4. Hyrwyddo Gwerthusiad a Gwelliant Parhaus


- Defnyddio arolygon i gael adborth gan aelodau i nodi meysydd ar gyfer gwelliant a datblygiad neu feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, ar draws y dirwedd diogelwch cymunedol a gweithgareddau'r Rhwydwaith.
- Adolygu a diweddaru'r cynllun strategol hwn i addasu i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid o fewn y dirwedd diogelwch cymunedol.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at atal ac ymyrraeth gynnar.
- Parhau i godi proffil diogelwch cymunedol drwy Wobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru sy'n cydnabod ac yn cefnogi mentrau diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru.

# Rhaglen Waith Flynyddol

Bydd cyflawni'r strategaeth hon wedi ei ganoli o amgylch rhaglen waith flynyddol sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ganolbwyntio ar y materion a'r themâu sy'n gyfredol ac yn bwysig i ymarferwyr diogelwch cymunedol. Bydd yn darparu map trywydd blynyddol a thrwy hwnnw byddwn yn gallu amlinellu beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni yn erbyn ein hamcanion a blaenoriaethau a chynorthwyo i ddarparu cymorth, rhannu gwybodaeth a darparu adborth ar gyfer mentrau yn y dyfodol, yn ogystal â bod yn ymatebol i anghenion newydd ymarferwyr.

Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ym mis Ionawr ar ein gwefan, gyda datganiad blynyddol yn adrodd ar lwyddiant y cynllun o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd.

Fel rhan o'r cynllun gwaith fe fydd yna raglen ddigwyddiadau ac ymgysylltu flynyddol a fydd yn dilyn y fformat hwn:



# Perfformiad Cyflawni a Metrigau

Mae'n bwysig ein bod yn gallu dangos ein bod yn ychwanegu gwerth, yn gwella gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr, yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch cymunedol a gwella cyflawni mewn partneriaeth. Bob blwyddyn fe fyddwn yn cyhoeddi datganiad blynyddol sy'n dangos ein llwyddiannau dros y flwyddyn flaenorol a'r canlyniadau rydym wedi eu cyflawni, yn ogystal ag amlinellu'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol.



Caiff hyn ei wneud drwy ddatblygu set o fetrigau perfformiad a fydd yn darparu trosolwg o effaith y Rhwydwaith a bydd yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Teimlad y Rhwydwaith | Cynnal arolygon rheolaidd i fesur boddhad gyda'r Rhwydwaith, y defnydd o adnoddau a'r effaith mae'r Rhwydwaith yn ei gael ar ddiogelwch cymunedol ar draws Cymru. |
| Effaith Hyfforddiant | Asesu cyrhaeddiad ac effaith ein rhaglen hyfforddi. |
| Lefelau ymgysylltu gyda'r Rhwydwaith | Faint mae ymarferwyr yn ymgysylltu gyda gweithgareddau'r Rhwydwaith, gan gynnwys tanysgrifiadau i'r newyddlen, presenoldeb mewn seminarau ac enwebiadau gwobrau. |
| Lefelau ymgysylltu gyda Llywodraethau | Pa mor aml y gofynnir i ni gyfrannu at lunio polisi ar ran ymarferwyr yng Nghymru. |
| Cyflawni'r Rhaglen Flynyddol a'r Effaith | Asesu'r effaith a'r canlyniad a gyflawnir gan ein rhaglen waith flynyddol trwy bresenoldeb, arolygon ac adborth. |

Dros oes y cynllun hwn fe fyddwn yn ceisio gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r metrigau hyn i sicrhau y gallwn ddangos y gwerth ychwanegol y mae'r Rhwydwaith yn ei gyflwyno i weithgarwch diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru.

# Llywodraethu a Cyllid

## Llywodraethu

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn adrodd i Fwrdd Gweithredol sy'n goruchwylio perfformiad cyffredinol y Rhwydwaith. Mae'r bwrdd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CLlLC, yr Heddlu yng Nghymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub i sicrhau fod y Rhwydwaith yn ychwanegu gwerth i arfer diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru ac yn bodloni anghenion ei aelodau. Bydd y Rhwydwaith yn darparu adroddiadau diweddaru i'r Bwrdd bob 6 mis i amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau.

Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi ac yn adrodd i Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru i sicrhau fod gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu a bod yna ymagwedd gydlynol tuag at greu cymunedau mwy diogel a gwydn ar hyd a lled Cymru. Diben y Bwrdd yw i ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth i waith partneriaeth lleol ac mae'r Rhwydwaith yn chwarae rhan hollbwysig mewn cydlynu'r ymagwedd hon.

## Cyllid

Bydd y Rhwydwaith yn cael ei gefnogi wrth iddo gyflawni'r strategaeth hon drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, yr Heddlu yng Nghymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Bydd y model ariannu hwn yn galluogi'r Rhwydwaith i barhau i ddatblygu adnoddau a fydd yn cefnogi ymarferwyr, partneriaid a budd-ddeiliaid, yn ogystal â gwella adnoddau presennol a chyflawni'r rhaglen waith flynyddol.

Drwy gydol cyfnod y strategaeth hon, bydd y Rhwydwaith yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer ffrydiau ariannu ychwanegol, cynaliadwy a fydd yn cynorthwyo datblygiad parhaus portffolio'r Rhwydwaith.

# Adnoddau

- Gwefan – Mae ein gwefan ddwyieithog yn siop un alwad sy'n rhoi mynediad i ymarferwyr i astudiaethau achos, podlediadau, deunydd hyfforddi a chyfoeth o wybodaeth.
- BRIFF – Mae'r newyddlen ddwyieithog hon yn darparu diweddariad misol o weithgarwch diogelwch cymunedol ar hyd a lled Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd dysgu, polisi sydd ar y gweill neu newidiadau i ddeddfwriaeth, ymgynghoriadau ac yn amlygu meysydd o arfer da.
- Seminarau – Mae ein cyfres o seminarau blynyddol yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a chael cipolwg gwerthfawr ar faterion allweddol yn ymwneud â diogelwch cymunedol. Mae'n rhoi cyfle i ymarferwyr a phartneriaid i glywed gan arbenigwyr pwnc a chynnig cyfle i rwydweithio gyda chydweithwyr o amrywiaeth o wahanol sefydliadau a sectorau.
- Gweithdai – Rydym yn cynnal nifer o weithdai drwy gydol y flwyddyn, gan roi cipolwg i ymarferwyr ar faterion cyfredol a chyfle i bartneriaid i gael llais mewn llunio polisi a deddfwriaeth.
- Wythnos ymwybyddiaeth – Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel a gynhelir yn flynyddol ac a gyflwynwyd gan y Rhwydwaith yn 2023 yn amlygu blaenoriaethau allweddol yn ymwneud â Diogelwch Cymunedol ac yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws Cymru.
- Gwobrau – Mae'r gwobrau blynyddol yn dathlu ac yn cydnabod arfer da a gweithio effeithiol mewn partneriaeth, gan greu llyfrgell o astudiaethau achos yn ymwneud â gweithio effeithiol.

Tîm y Rhwydwaith:

- Pennaeth y Rhwydwaith
- Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
- Rheolwr Digwyddiadau a Chyfathrebu

Rhwydwaith
**CYMUNEDAU MWY DIOGEL** CYMRU

WALES **SAFER COMMUNITIES**
Network


cymunedaumwydiogel.cymru

cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru


Plismona yng Nghymru
**Policing in Wales**


Ariennir yn Rhannol gan
**Llywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**


CLILC
WLGA